# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

**RHAN 3**

ANSAWDD YR ADDYSG

*Asesu ansawdd yr addysg*

**17 Asesu ansawdd yr addysg**

(1) Rhaid i CCAUC asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru—

(a) gan bob sefydliad rheoleiddiedig;

(b) ar ran pob sefydliad rheoleiddiedig (pa un ai gan sefydliad rheoleiddiedig arall neu gan ddarparwr allanol).

(2) At ddibenion is-adran (1), mae addysg a ddarperir y tu allan i Gymru i'w thrin fel pe bai wedi ei darparu yng Nghymru os y'i darperir fel rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru.

(3) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at ddarparwr allanol yn gyfeiriadau at berson—

(a) nad yw'n sefydliad rheoleiddiedig, ond

(b) sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad rheoleiddiedig.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b)—

(a) caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin (neu nad yw i'w drin) fel person sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs (neu ran ohono);

(b) nid yw cwrs (neu ran ohono) i'w drin fel cwrs a ddarperir ar ran sefydliad rheoleiddiedig os y'i darperir o dan drefniadau gyda'r sefydliad hwnnw a wnaed cyn i'r adran hon ddod i rym.